

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL
18 HYDREF 2018

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Iau 18 Hydref 2018.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Bob Connah, Paul Cunningham, Patrick Heesom, Andrew Holgate, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Mike Lowe, Hilary McGuill, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Andy Williams ac Arnold Woolley

YMDDIHEURIADAU: Y Cyng. Aaron Shotton, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Cyllid:

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau; Prif Weithredwr; a Rheolwr Cyllid Corfforaethol

HEFYD YN BRESENNOL: Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

45. DATGAN CYSYLLTIADAU

Dim.

46. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2018.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

47. OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn nodi cynnydd ar bwyntiau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor. Diweddarwyd y fformat i gynnwys terfynau amser fel y gofynnwyd yn flaenorol.

Fel diweddariad pellach ar weithredoedd o gyfarfod mis Gorffennaf, anogwyd Aelodau i gwblhau arolwg Iaith Gymraeg a chafwyd 54 o ymatebion hyd yma.

O ran cam gweithredu heb ei gwblhau ers cyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi, dywedodd swyddogion y caiff copïau o'r adroddiad arolwg ar bont Sir y Fflint eu rhannu erbyn y diwrnod canlynol. Eglurodd y Cynghorydd Heesom bod ei gais am yr adroddiad yn ymwneud â hyfywedd y bont fel sianelydd ar gyfer mater seilwaith priffyrdd sylweddol. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r adroddiad yn cael ei glychredeg i bob Aelod o'r Pwyllgor. Byddai cynlluniau

Llywodraeth Cymru i fabwysiadu'r bont fel rhan o'r rhwydwaith y cefnffyrdd yn dileu unrhyw gyfrifoldeb ar y Cyngor dros waith cynnal a chadw yn y dyfodol.

Croesawodd y Cynghorwyr Heesom a McGuill y gweithdai portffolio cyllideb diweddar y gofynnwyd amdanynt gan Aelodau. Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'i dîm am eu cyfraniad, a rhoddodd wybod bod gwaith yn mynd rhagddo ar y rhestr o faterion penodol a nodwyd yn y gweithdai a gaiff ei chylchredu i'r Aelodau i gyd.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad.

48. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Wrth gyflwyno'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol i gael ei hystyried, rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd wybod bod rhai eitemau wedi'u gohirio o'r cyfarfod hwn o ganlyniad i gyfranogiad swyddogion yng ngwaith paratoi deunyddiau a gafodd eu defnyddio yn y gweithdai cyllideb.

Byddai'r ddau gam gweithredu o gyfarfod y Pwyllgor mis Medi yn ymwneud â pherfformiad data a mapio taenlenni yn cael eu cynnwys yn agenda'r cyfarfod nesaf.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd McGuill, cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i ddarparu manylion cyswllt y tîm TG i'r Aelodau i'w helpu â materion iPad. Atgoffodd y Cynghorydd Mulin bod cymorth TG ar gael ar gais.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd, yn cael ei chymeradwyo; a
- (b) Bod Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

49. Y SEFYLLFA DIWEDDARAF O RAN CYLLIDEBAU LLYWODRAETH CYMRU A'R DU A CHYNLLUNIO'R GYLLIDEB LEOL 2019/20

Rhoddodd y Prif Weithredwr y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru (LIC) ynghylch Setliad Dros Dro'r Llywodraeth Leol ar gyfer 2019/20 a oedd yn destun ymgynghori ffurfiol. Cyn y Setliad terfynol a ddisgwylir ar 19 Rhagfyr, byddai Cyhoeddiad Cyllideb Hydref y Canghellor ar 29 Hydref yn hanfodol bwysig wrth sefydlu unrhyw symiau canlyniadol i Gymru. Roedd hyn o ganlyniad i ymrwymiad a roddwyd gan LIC y byddai unrhyw symudiadau cadarnhaol newydd (er enghraifft, cyllid ychwanegol ar gyfer addysg a gofal cymdeithasol) yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer llwyodraeth leol fel cydnabyddiaeth o'r dyraniad ychwanegol sydd eisoes wedi'i flaenoriaethu ar gyfer y sector lechyd.

O ran ffigwr y Setliad Dros Dro, dywedodd y Prif Weithredwr, yn ogystal â'r ffaith bod Sir y Fflint yn gyngor cyllid isel, golyga amrywiadau dosbarthiad ei fod yn un o dri awdurdod yng Ngogledd Cymru sy'n derbyn y gostyngiad mwyaf o 1%, sy'n cyfateb i golled o £1.9miliwn i Sir y Fflint (gan gynnwys y dyfarniad cyflog blynyddol i athrawon na chaiff ei ariannu).

Fel un o'r risgiau mwyaf ar lefel y DU, roedd cadarnhad gan LIC am sut fydd costau ychwanegol ar gyfer cyfraniadau cyflogwyr i bensiynau athrawon yn cael eu hariannu yn dal heb ddod i law.

I Sir y Fflint, roedd hyn yn risg ychwanegol posibl o £3.5miliwn yn ystod y flwyddyn.

Roedd rhaid i'r Cabinet wneud penderfyniad yn ymwneud â chyflwyno dyfarniad cyflog athrawon yn ystod y flwyddyn, roedd Sir y Fflint yn disgwyl derbyn £0.409 miliwn o'r dyraniad gan LIC sy'n tua hanner y cyfanswm. Roedd rhai sylwadau yn mynegi nad oedd y Setliad yn cynnwys ychwaneged ar gyfer 2019/20 sy'n rhoi pwysau pellach o o leiaf £1.3miliwn.

Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi gwneud eu hachos cylluniadol yn seiliedig ar dystiolaeth i LIC wella sefyllfa'r Setliad tra roedd hyblygrwydd o fewn ei gyllidebau ar y cam hwn. Fel rhan o'r ymgyrchu hir a pharhaus, roedd pryderon ynghylch yr effaith a gaiff diffyg cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol ar lechyd oherwydd dylid ystyried y ddau faes ochr yn ochr â'i gilydd. Yn dilyn trafodaethau blaenorol, awgrymwyd bod Aelodau yn gohirio unrhyw gamau gweithredu pellach nes y gellir sefydlu effaith Datganiad y Canghellor.

O ran yr ansicrwydd ynghylch grantiau penodol, rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol wybod eu bod yn aros am fanylion pellach ynghylch cyhoeddiad LIC o £30miliwn yn ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol a £15 miliwn ar gyfer addysg.

Roedd y Cyngorydd Heesom yn pryderu'n arw am ddigonolrwydd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a phortffolio sydd wedi'u strwythuro i wella sefyllfa ariannol y Cyngor. Dywedodd bod y gwasanaethau dan bwysau sylweddol ac na ellir eu darparu yn y fframwaith presennol. Aeth ymlaen i gwestiynu ymateb y Cyngor i gyfres o argymhellion o fewn adroddiad a gafodd ei rannu.

O ran y pwynt olaf, eglurodd y Prif Weithredwr y cefndir y tu ôl i'r adroddiad gan weithiwr cyllid proffesiynol a gafodd ei gomisiynu gan y Cyngor gyda chyllid CLILC mewn ymateb i gynnig y Cyngor i rannu ei strategaethau a'i risgiau i gefnogi'r achos am gyllid tecach. Cafodd nifer o faterion a godwyd gan y Cyngor eu dilysu yn y canfyddiadau, a daeth i'r amlwg bod ddiffyg atebion i'r rheiny a oedd eisoes wedi'u nodi. Cyfeiriwyd at yr adroddiad yn flaenorol wrth argymhell newidiadau i'r polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw. Cytunodd Swyddogion i gylchredu'r adroddiad a'r cynllun gweithredu cysylltiedig i Aelodau.

Mewn ymateb i sylwadau eraill, bu i'r Prif Weithredwr atgoffa'r Pwyllgor o'r prif gyfrifoldebau yn ymwneud â gosod cyllideb a disgrifiodd ddifrifoldeb yr her ariannol. Rhannwyd llawer o wybodaeth yn y gweithdai cyllideb diweddar i helpu Aelodau ddeall risgiau a gwytnwch, a bu swyddogion yn ymgymryd â gwaith

archwilio i feysydd pellach a nodwyd. Er nad oedd unrhyw gynlluniau wedi cael eu cynnig i fynd i'r afael â'r bwloch cyllideb yn y gweithdai, rhoddwyd y cyfle i Aelodau gynnig opsiynau newydd ar unrhyw gam.

Atgoffodd y Cynghorydd Mullin bod bob cyngor mewn sefyllfa ariannol tebyg a bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cydnabod Sir y Fflint fel cyngor sy'n cael ei reoli'n dda. Cyfeiriodd at y llwyddiannau yn Sir y Fflint wrth gyflwyno strwythur rheoli symlach ynghyd â llwyddiannau mewn Modelau Darpariaeth Amgen, Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol ac adeiladu tai Cyngor.

Mewn ymateb i'r sylwadau ynghylch arian wrth gefn, atgoffodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol o'r angen i neilltuo swm digonol o arian i ymdrin ag unrhyw oddefiannau gan gynnwys buddsoddi er mwyn creu effeithlonrwydd a bodloni gwobrau tâl annisgwyl. Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch balans yr arian wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn, fel yr adroddir dan eitem nesaf yr agenda.

Dywedodd y Cynghorydd Jones ei fod yn bwysig bod Aelodau Trosolwg a Chraffu yn gallu herio gwybodaeth fel rhan o'u rôl. Wrth gyfeirio at y gwahaniaeth yn y dosbarthiad cyllid rhwng llywodraeth leol ac lechyd, dywedodd y dylai LIC gydnabod yr angen i lechyd a Gofal Cymdeithasol weithio â'i gilydd oherwydd bod y ddau yn cefnogi ei gilydd. Nododd bod Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir yn faes sydd mewn perygl lle nad oes gan gynghorau unrhyw reolaeth drosto, ac o'r herwydd, dylid ei ariannu'n genedlaethol. Dywedodd y Prif Weithredwr bod CLIC wedi cytuno i gynnwys hyn fel rhan o bwysau gofal cymdeithasol yn ei sylwadau i LIC, yn hytrach na chyllid penodol.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd McGuill ynghylch monitro cost-effeithlonrwydd o fewn y Cyngor, dywedodd y Prif Weithredwr y dylid codi unrhyw awgrymiadau yn uniongyrchol â'r swyddogion.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Johnson ynghylch cyfraniad Aelodau i'r broses gyllidebu, cadarnhaodd y Prif Weithredwr y gall Aelodau gyflwyno cynigion newydd ar unrhyw gam heb wrthdroi unrhyw benderfyniadau sydd wedi'u gwneud eisoes.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r diweddariad ar lafar; a
- (b) Diolch i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion am eu cyfraniadau agored.

50. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2018/19 MIS 5

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw ar gyfer 2018/19 fel yr oedd ym Mis 5 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai cyn i'r Cabinet ei ystyried.

O ran Cronfa'r Cyngor, roedd y diffyg weithredol wedi gostwng i £0.303miliwn o £0.660miliwn yn y mis blaenorol. O ran safle rhagdybiaethol y portffolios, roedd y gorwariant ar Leoliadau y Tu Allan i'r Sir yn ystod y flwyddyn yn cael ei wrthbwysu'n bennaf gan y tanwariant sylweddol ar Gyllid Canolog a Chorfforaethol.

Amcangyfrifwyd y byddai 97% o arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd yn cael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn.

Ymhlith y risgiau sy'n cael eu holrhain, argymhelliwyd y dylid cyfrannu o leiaf £0.015miliwn o arian wrth gefn y Cyngor tuag at costau cyfreithiol yr ymchwiliad cenedlaethol annibynnol i Gam-Drin Plant yn Rhywiol.

Tynnwyd sylw at y pwysau sylweddol sydd ar ysgolion o ganlyniad i'r gwobrau tâl athrawon a gwobrau tâl eraill na wyddys amdanynt pan osodwyd y gyllideb. Fel y soniwyd dan yr eitem diwethaf, byddai newidiadau arfaethedig i bensiynau athrawon yn golygu cynnydd yng nghyfraddau cyfraniadau cyflogwyr.

Mae crynodeb o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn dangos gostyngiad blynyddol gyda chyfanswm yr amcanestyniad ar ddiwedd y flwyddyn yn £11.101miliwn.

Ar y Cyfrif Refeniw Tai, rhagamcanwyd y byddai gwariant yn ystod y flwyddyn £0.067m yn is na'r gyllideb, gan adael balans o £1.165m ar ddiwedd y flwyddyn sy'n uwch na'r lefel isaf a argymhellir.

O ran cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, gofynnodd y Cadeirydd a fyddai'n bosibl newid enw Flintshire Enterprise Ltd am nad yw'n bodoli mwyach. Cytunodd swyddogion i ymchwilio i hyn.

Tynnodd y Cynghorydd Heesom sylw at newidiadau i'r gyllideb ar gyfer Strydwedd a Chludiant a chludiant i'r ysgol yn benodol. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r adroddiad nesaf i'r Cabinet yn mynd i'r afael â materion na ddatryswyd i'w ystyried gan Trosolwg a Chraffu yn gynharach yn y flwyddyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at incwm o daliadau meysydd parcio nad yw wedi cyrraedd y targed rhagamcanol a gofynnodd a fyddai'n bosibl ei adolygu eto oherwydd yr effaith sylweddol ar fasnachwyr canol tref a oedd eisoes yn ei chael hi'n anodd o ganlyniad i ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr. Dywedodd y gallai'r Cyngor wneud mwy i hyrwyddo a chefnogi adfywiad canol trefi, oherwydd bod llawer o bobl yn dewis ffyrdd eraill o sopia, megis Parc Brychdyn lle y gellir parcio am ddim. Roedd Aelodau eraill yn cefnogi'r farn hon.

Dywedodd y Cynghorydd Mullin bod hyfywedd canol trefi yn broblem genedlaethol o ganlyniad i newid yn y ffordd mae pobl yn dewis siopa.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at y diffyg incwm gan gynnwys yr oedi mewn gweithredu ffioedd yn y Fflint. Caiff manylion pellach eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Rhagfyr fel rhan o adolygiad canol y flwyddyn o'r Strategaeth Barcio.

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriwyd at y dulliau gwahanol o adfywio canol trefi. Trafododd y Cynghorodd Johnson welliannau i ganol tref Treffynnon sydd wedi cael ei chynnwys yn y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Stryd Fawr Orau Prydain. Dywedodd bod hygyrchedd strydoedd mawr yn cynnwys adolygu darpariaeth parcio, fodd bynnag, cydnabuwyd bod canol trefi yn wahanol ym mhobman.

PENDERFYNWYD:

Nodi adroddiad Monitro Cyllid Refeniw Mis 5 a chyflwyno'r materion canlynol gerbron y Cabinet fel meysydd i'w hystyried:

- Diffyg incwm o feysydd parcio;
- Cynnwys effaith y costau hynny ar adfywio canol trefi yn yr adolygiad o'r Strategaeth ym mis Rhagfyr;
- Y 'llithriad' parhaus yn y gyllideb Strydwedd a Chludiant rhwng gwir gostau a chostau y cyllidebwyd, yn enwedig ynghylch atebion cludiant.

51. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.55am)

.....
Y Cadeirydd